

MADRYN, o Fadryn (Ll n).

Camgymeriad go fawr yw credu taw teulu [Syr Love Jones Parry](#) oedd deiliaid gwreiddiol y stad; ni ddaethant hwy yno hyd ar ôl priodas y trydydd Love Parry o Gefnllanfair â Sidney Lewis yn 1763; ac nid oedd gan yr un o'r ddau y cyswllt lleiaf â'r hen deulu. Yr oedd y Madryniaid wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhlwyfi Llandudwen a Cheidio ers cenedlaethau, gan anfon allan ganghennau i sefydlu yng Ngharngiwch a'r Llannerch Fawr. Bu un ohonynt, THOMAS MADRYN, mewn cryn brofedigaethau yn oes Elisabeth gyda boneddigion eraill o L n oherwydd stremp uchelgeisiol iarll Leicester; priododd ei fab ef, ROBERT MADRYN, i deulu [Bodfel](#) (y wraig gyntaf) a [Chefn Amwlch](#) (yr ail). Yr i Robert oedd THOMAS MADRYN, yr enwocaf o'r teulu; cynrol ym myddin y Senedd, siryf yn 1648-9 (a chyn hynny yn 1643), aelod seneddol dros sir Gaernarfon, 1654-5; daliai amryw swyddi pwysfawr eraill yn siroedd Môn ac Arfon. Nid bychan oedd ei ddylanwad: medrodd gadw'r offeiriad John Gethin, priod ei chwaer Dorothy, ym mywoliaeth Llangybi ar ôl colli Cricieth o dan Ddeddf y Taeniad; medrodd rwyddhau'r ffordd i'w berthynas Thomas Meredith, prifathro Ysgol Friars ym Mangor, i fyned i fyny i Lundain yn 1647 i sicrhau ôl-ddyledion yr ysgol honno; ac yr oedd yn eistedd ar y pwyllgor i archwilio ei chyfrifon yn 1650. Er i'w enw sefyll ar ben y rhes o Sir Gaernarfon yn anfon llongyfarch i'r Diffynnwr newydd yn 1658, er darganfod bwndeli o bistolau ym Madryn yn 1661, diwedd Thomas Madryn oedd cydymffurfio â'r drefn newydd, a dod yn siryf o dan Siarl II yn 1665-6. Bu THOMAS MADRYN, ei fab, farw yn 1688; dilynwyd ef gan ei frawd WILLIAM MADRYN; gwerthodd hwnnw stad y Madryniaid i [Owen Hughes](#), y twrnai cyfoethog o Fiwmares, a gor yres i Jane, ei chwaer ef, oedd y Sidney Lewis y cyfeiriwyd ati eisoes.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 242, 64, 116, 206, 224

T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), 116

Barber a Lewis, *The history of Friars School, Bangor* (1901), 34-5

Public Record Office, List of Sheriffs for England and Wales ... to A.D. 1831 (1898) (P.R.O.);, 249

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 60

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733873](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

